**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI LGH-06-03(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **19 Mawrth 2003** |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | **ADRODDIAD AR HYNT Y DDEDDF ARBED YNNI YN Y CARTREF** |

**DIBEN**

1. Bwriad y papur hwn yw gofyn am farn y Pwyllgor ar yr adroddiad y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei baratoi dan Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 (HECA).

**CRYNODEB**

2. Mae adroddiadau arbed ynni yr awdurdodau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf wedi nodi bod potensial i sicrhau gwelliant o 30% mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref dros gyfnod o 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997.

3. Mae'r adroddiad hwn o gynnydd, y mae'n ofynnol ei gyhoeddi o dan y Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru), yn cynnwys gweithgareddau HECA gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2001 hyd 31 Mawrth 2002. Mae'n amlinellu:

- cyflwyniad i HECA;
- y canllawiau a'r cymorth a roddwyd i awdurdodau lleol;
- adroddiadau blynyddol ac adroddiadau ar y cynnydd a welwyd hyd yn hyn gan yr awdurdodau lleol;
- cymorth a chefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer yr awdurdodau lleol.

4. Mae tystiolaeth yn adroddiadau'r awdurdodau lleol yn dangos gwelliant o 3.92% dros y pum mlynedd hyd ddiwedd Mawrth 2002. Nid yw cynnydd ar y raddfa hon yn ddigonol ar gyfer gweld y gwelliant posibl o 30% a nodwyd yn yr adroddiadau HECA gwreiddiol.
5. Dim ond 9 adroddiad ar gynnydd allan o 22 posibl ar gyfer y pedwerydd cylch sydd wedi eu cyflwyno.
6. Mae'r diffyg sylw a roddir i effeithlonrwydd ynni gan awdurdodau lleol yn

cael ei ddefnyddio fel un o'r rhesymau y tu cefn i'r diffyg llwyddiant. Gwnaeth cydnabod y broblem hon yn 2001 annog Llywodraeth y Cynulliad ynghyd â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i greu swydd ar gyfer codi

ymwybyddiaeth gorfforaethol am y mater. Yn ddiweddar gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad nodi ei ddymuniad i geisio mwy o gyfleoedd yn erbyn cefndir Papur Gwyn diweddar Llywodraeth y DU ar ynni a Datganiad Ynni Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ddau yn nodi rôl allweddol ar gyfer effeithlonrwydd ynni er mwyn bodloni nodau hirdymor a thymor canolig i leihau carbon.

7. Mae’r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yn ddeddfwriaeth bwysig a fydd,os y caiff ei weithredu’n gywir, ar y cyd â pholisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad a’r DU sy’n ymwneud â chynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni a dileu tlodi tanwydd, yn sicrhau cynnydd gwirioneddol wrth leihau effaith newid yn yr hinsawdd a darparu arbedion ariannol, a gwella amodau byw bob teulu ar incwm isel. Bydd Cymru yn elwa o'r buddsoddiad a ddaw yn sgil rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn nhermau cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau gweith-gynhyrchu a gosod. Mae'n hanfodol felly nodi unrhyw rwystrau i lwyddiant a bod camau i wella hyn yn cael eu cymryd.

**ARGYMHELLIAD**

8. Argymhellir y Pwyllgor i:

a. Nodi'r cynnydd diweddar a bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â CLlLC a phartneriaid eraill i geisio mwy o ymrwymiad i gyflawni amcanion Deddf Arbed Ynni yn y Cartref.

b) Nodi'r bwriad i gyhoeddi adroddiad pellach ar gynnydd yn 2005.

**AMSERU**

9. Cyflwynir yr adroddiad hwn sy’n nodi’r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tair blynedd gyntaf er sefydlu’r Ddeddf fel rhan o rwymedigaethau statudol y Cynulliad i adrodd yngln â chynnydd.

**CEFNDIR**

**Cyflwyniad**

10. Dechreuodd Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 (y cyfeirir ati fel "y Ddeddf", "y Ddeddf" neu "HECA") fel Mesur Aelod Preifat, wedi ei gyflwyno gan Diana Maddock, AS, y Democrat Rhyddfrydol dros Christchurch ar y pryd, yn sesiwn Seneddol 1994/95. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 28 Mehefin 1995, a daeth i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 1 Ebrill 1996. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd oedi cyn ei chyflwyno yng Nghymru er mwyn i’r Awdurdodau Unedol newydd gael ychydig o amser i gael eu traed tanynt cyn ymgymryd â’r dyletswyddau newydd hyn. Roedd y Ddeddf yn dynodi pob awdurdod lleol yn y DU oedd â chyfrifoldebau tai yn "awdurdodau arbed ynni" (22 ohonynt yng Nghymru) ac yn pennu nifer o ofynion a dyletswyddau.

11. Daeth Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995, a Deddf Arbed Ynni 1996, sy’n cyflwyno newidiadau iddi o safbwynt y diffiniad o "adeiladau preswyl", i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 1997.

12. Mae’r Ddeddf yn canolbwyntio ar y posibiliadau ar gyfer cynyddu effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, fel awdurdodau arbed ynni, lunio adroddiadau sy’n nodi camau, a fyddai’n arwain at welliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni adeiladau preswyl yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd yr adroddiadau cyntaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhachwedd 1997. Gosodwyd targed o welliant o 30% mewn effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau preswyl erbyn 2007 i awdurdodau lleol o gymharu â pherfformiad y stoc ar 1 Ebrill 1997. Mae’n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol a’u hanfon i’r Cynulliad.

13. Yn ogystal â'r pwysigrwydd amgylcheddol mae effeithlonrwydd ynni mewn tai yn hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd pobl sy’n byw yng Nghymru. Mae’n mynd i’r afael â thlodi tanwydd, yn creu swyddi ac yn arwain at fanteision o safbwynt iechyd pobl sy’n byw mewn cartrefi oer a llaith. Gall gynhyrchu arbedion ariannol gwirioneddol, sylweddol a pharhaol trwy filiau tanwydd is. Pwysleisir pwysigrwydd y mater hwn hefyd gan y ffaith fod gan o leiaf 220,000 o gartrefi Cymru brofiad o dlodi tanwydd yn ôl yr amcangyfrif yn 1997. (Diffinnir tlodi tanwydd yn fras fel y teuluoedd hynny y mae angen iddynt wario mwy na 10% o incwm y teulu er mwyn sicrhau trefniadau gwresogi boddhaol; er enghraifft, 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C yn yr ystafelloedd eraill a ddefnyddir).

14. Mae awdurdodau lleol yn cael eu gweld fel hwyluswyr newid er mwyn annog perchenogion cartrefi a landlordiaid i fabwysiadu camau effeithlonrwydd ynni fel mater o drefn. Nodwyd bod awdurdodau lleol yn hanfodol i lwyddiant y Ddeddf. Mae amrediad y swyddogaethau a gyflawnir ganddynt yn eu galluogi i gymell a dylanwadu ar eraill. Hwy hefyd sydd yn y safle gorau i ymateb yn uniongyrchol i safbwyntiau a dyheadau lleol, gan roi pwyslais lleol ar bolisïau cenedlaethol, a sicrhau trwy hynny bod modd eu darparu’n ymarferol. Mae hyn hefyd yn gyson ag egwyddorion Agenda 21 ac â’r dull gweithredu sy’n seiliedig ar bartneriaeth a nodir yn Rhaglen Newid Hinsawdd y DU.

15. Nid yw’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod arbed ynni weithredu’r holl gamau y mae wedi eu nodi. Bydd rhai camau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol awdurdod, megis gwaith ar dai nad yw’n berchen arnynt. Rôl canolog awdurdodau yw annog a chymell perchenogion cartrefi a landlordiaid i fabwysiadu camau effeithlonrwydd ynni – darparu cymhelliant priodol, cyngor a chyfarwyddyd er mwyn sicrhau bod y camau’n cael eu mabwysiadu, a bod yr arbedion mewn costau ac ynni a ddaw yn sgil hyn yn cael eu gwireddu.

**Arweiniad**

16. Ar ôl ymgynghori â'r cymdeithasau awdurdodau lleol, awdurdodau lleol a chyrff ac unigolion eraill sydd â diddordeb, cyhoeddwyd cyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau arbed ynni yng Nghymru gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd yn Chwefror 1997 fel Cylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig. Roedd y Cylchlythyr yn canolbwyntio ar baratoi adroddiadau arbed ynni, yn awgrymu ffyrdd o wneud tybiaethau da yngln ag effeithlonrwydd ynni tebygol adeiladau preswyl, yn darparu awgrymiadau yngln â'r mathau o gamau y byddai awdurdodau'n hoffi eu hystyried, ac yn cynnig cyngor yngln â sawl ffynhonnell arall a allai gynnig gwybodaeth ddefnyddiol.

17. Roedd y Cylchlythyr hefyd yn diffinio "gwelliant sylweddol", at ddibenion y Ddeddf, fel gwelliant o 30% dros gyfnod o 10 mlynedd gan gychwyn ar 1 Ebrill 1997.

18. Yn Chwefror 1997 darparwyd pecyn perthynol ar ffurf taenlen gan y Swyddfa Gymreig i bob awdurdod arbed ynni. Paratowyd y daenlen ar gyfer y Swyddfa Gymreig gan y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau. Roedd y daenlen yn ddull sylfaenol o alluogi pob awdurdod i asesu perfformiad yr adeiladau preswyl yn eu hardal o ran effeithlonrwydd ynni, a nodi camau a fyddai'n debygol o arwain at y gwelliant sylweddol sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Fe'i bwriadwyd yn bennaf ar gyfer yr awdurdodau hynny nad oedd ganddynt unrhyw drefniadau eraill ar gyfer pennu perfformiad presennol y stoc.

19. Yn gynnar yn 1998, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, fel y'i gelwid bryd hynny, ar y cyd ag Uned Cefnogi Arbed Ynni y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau, gyfarwyddyd strategol manwl ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru – Good Practice Guide 250 – yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni mewn tai. Fel rhan o'r fframwaith cyfarwyddyd sy'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf, mae'r Canllaw'n pwysleisio pwysigrwydd integreiddio ymgyrchoedd effeithlonrwydd ynni â pholisïau a rhaglenni ehangach sy'n ymwneud â thai a'r amgylchedd.

20. Gan fod cynnwys yr adroddiadau cynnydd cyntaf a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gymreig yn Ebrill 1999 yn amrywio mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi mwy o gyfarwyddyd mewn perthynas â llunio adroddiadau cynnydd yn ymwneud â'r Ddeddf. Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd ychwanegol hwn, sy'n dwyn y teitl 'Adroddiad HECA –rhestr o'r wybodaeth angenrheidiol' ym Mai 2000. Y bwriad oedd atgoffa awdurdodau ynghylch y gofynion sylfaenol, o safbwynt gwybodaeth, fel sy'n cael eu nodi yng Nghylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig.

21. Er mwyn rhoi mwy o gymorth i awdurdodau arbed ynni gyda'r gwaith o baratoi eu hadroddiadau cynnydd blynyddol cyflogodd y Cynulliad ymgynghorwyr i lunio cyfarwyddyd, ac yn bwysicach fyth, becyn methodoleg a meddalwedd cysylltiedig yn cynnwys, os yn bosibl, dybiaethau safonedig. Gyda'i gilydd, bydd y cyfarwyddyd a'r meddalwedd yn galluogi pob awdurdod arbed ynni i asesu effeithiau eu camau effeithlonrwydd ynni mewn ffordd fwy cyson a dilys. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau unigol a'r Cynulliad i fod yn fwy hyderus yngln â'r

adroddiadau blynyddol. Bydd defnyddio’r meddalwedd yn hwyluso’r gwaith o ddadansoddi a chasglu ynghyd y wybodaeth a gafwyd trwy’r adroddiadau cynnydd blynyddol. Derbyniodd yr awdurdodau lleol y canllawiau a'r meddalwedd ym mis Awst 2001.

22. Mae’r cyfarwyddyd sydd ar gael yn dangos ymroddiad Llywodraeth y Cynulliad i effeithlonrwydd ynni a Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995. Mae hefyd yn cydnabod bod y Ddeddf yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a fydd, os bydd yr awdurdodau arbed ynni’n darparu’r gwelliannau’n briodol, yn arwain at newid a manteision gwirioneddol i’r gymuned leol a’r amgylchedd cenedlaethol.

**Cymorth Arall i Awdurdodau**

23. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi blaenoriaeth sylweddol i faterion effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, ac mae wedi gweithio’n gyson er mwyn sicrhau gwelliant sylweddol yn nelwedd effeithlonrwydd ynni. Mae llawer o gymorth a chefnogaeth wedi ei chynnig er mwyn darparu strategaethau’r Ddeddf trwy nifer o raglenni. Mae’r Llywodraeth yn cynnig cefnogaeth ariannol i’r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni annibynnol sy’n cynnig cefnogaeth a chyngor ymarferol i awdurdodau lleol gyda’u dyletswyddau dan y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref.

24. Yn 2001/02 darparodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn darparu hyd at £2.5 miliwn i raglen yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru er mwyn hybu effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac mewn cwmnïau bach. Dylai’r rhaglen hon fod o gymorth mawr i awdurdodau wrth ymgymryd â strategaethau’r Ddeddf. Er enghraifft:

- mae rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth o 4 Canolfan Gynghori Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru yn cynnig cyngor diduedd rhad ac am ddim i gwsmeriaid yn y sector domestig. Mae cwsmeriaid sy’n derbyn cyngor a ddarperir gan y canolfannau’n arbed yn agos at £54 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio’r gwasanaeth a ddarperir gan y Canolfannau hyn, i’w helpu i ddatblygu agweddau cynghori a hybu eu strategaethau, ac er mwyn casglu a dwyn ynghyd ddata ar welliannau effeithlonrwydd ynni a sicrhawyd gan deuluoedd;

- mae rhaglen hyrwyddo bwysig yr Ymddiriedolaeth, *"Effeithlonrwydd Ynni"*, yn annog effeithlonrwydd ynni yn y cartref

- mae'r gwasanaeth cynghori Cymorth Ymarferol yn helpu awdurdodau lleol ddatblygu polisïau a rhaglenni ynni cynaliadwy a thrafnidiaeth ffyrdd drwy gynnig cyngor polisi, gwybodaeth am grantiau ac astudiaethau achos;

- mae Ynni Cymunedol yn rhaglen sy'n cael ei rhedeg gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r rhaglen i adnewyddu hen rwydweithiau gwresogi, ac adeiladu rhai newydd i redeg ar systemau modern er mwyn creu gwres a thrydan.

Drwy'r DU mae gan yr elfen gyfalaf £20 miliwn ar gyfer 2002/03 a £30 miliwn ar gyfer 2003/04;

- mae'r Rhaglen Arloesol yn annog awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill i ddatblygu dulliau newydd o sicrhau arbedion carbon yn y sector cartref. Cynigir cymorth technegol ac ariannol ar ddau gam; ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd a rhoi prosiectau sy'n lleihau gollyngiadau carbon ar waith; a

- chaiff y Bartneriaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cartrefi ei hwyluso gan yr Ymddiriedolaeth, ac mae'n tynnu ynghyd dros 200 o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn effeithlonrwydd ynni ledled y DU. Y gyllideb ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2001/02 oedd £1 miliwn.

25. Yr Ymddiriedolaeth sydd bellach yn rheoli prif raglen gwybodaeth, cyngor ac ymchwil ar effeithlonrwydd ynni Llywodraeth y DU ar gyfer cymdeithasau tai proffesiynol. Yr oedd gan y Rhaglen Arferion Gorau Effeithlonrwydd Ynni gyllideb flynyddol o £23 miliwn yn 2001/02. Mae'r rhaglen bellach wedi'i rhannu'n ddwy rhan, gyda'r rhan sydd o dan ofal yr Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo a darparu ystod eang o wybodaeth dechnegol am dai, gan gynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar effeithlonrwydd ynni, a chanllawiau i alluogi sefydliadau i gymharu eu perfformiad hwy o ran ynni gyda pherfformiad sefydliadau eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.

26. Cynllun Effeithiolrwydd Ynni yn y Cartref Newydd ar gyfer Cymru (HEES newydd) yw prif raglen y Cynulliad ar gyfer insiwleiddio cartrefi'r teuluoedd mwyaf anghenus. Roedd gan yr HEES newydd gyllideb flynyddol o £9.6 miliwn ar gyfer 2001-02. Mae cyllidebau'r Cynulliad ar gyfer yr HEES newydd yn 2002-03 a 2003-04 wedi cael eu cymeradwyo ar £11.1 miliwn a £13.3 miliwn, yn y drefn honno. Gall y Cynllun hwn gynnig cymorth ymarferol tuag at symud ymlaen o dan yr HECA. Serch hynny, am fod cynlluniau'r Cynulliad a'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd ond yn berthnasol i leiafswm y stoc dai, ni ddylai awdurdodau eu hystyried yn ffordd ymarferol o gyflawni'r holl welliannau effeithiolrwydd ynni a ddisgwylir gan strategaethau HECA.

27. Mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda TRANSCO (y prif gwmni cludo nwy) i ddatblygu 'Cynllun Gwres Fforddiadwy' i helpu i osod systemau modern sy'n defnyddio nwy i wresogi tai, gan gynnwys gwres cymunedol, ac insiwleiddio mewn hyd at filiwn o gartrefi yn y DU erbyn 2007. Bydd union nifer y cartrefi fydd yn cael eu gwella yn dibynnu ar y nifer sy'n manteisio ar y cynllun, yn enwedig awdurdodau lleol ac eraill sy'n darparu tai cymdeithasol. Fel rhan o'r rhaglen, mae'r Transco hefyd yn ariannu'r cynnydd yn yr hyfforddiant fydd ei angen i gwrdd â'r galw am y peirianwyr gwresogi ychwanegol i gyflawni'r cynllun. Hyd yma, mae dros 130 o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant ac mae'r cwmni wedi dechrau tri chynllun arloesol yn y sector nwy ar gyfer pobl ar fudd-daliadau, pobl ar raglen y Fargen Newydd a phobl sy'n wynebu diswyddiadau ar raddfa fawr o gwmnïau fel Corus, Corning Optical Fibres a GE

Aircraft Engine Services Ltd.

28. Mae'r Cynllun Gwres Fforddiadwy yn defnyddio cyllid prydles mewn ffordd arloesol i annog pobl i osod deunydd isiwleiddio a gwres canolog sy'n rhedeg ar nwy. Roedd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i newid y rheolau treth oedd yn berthnasol i brydlesu cyfarpar gwresogi, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y Canghellor ym mis Mawrth 2000. Mantais y cynllun ar gyfer darparwyr tai yw ei bod yn rhatach i osod y cyfarpar (oherwydd y cynllun prydlesu a'r lwfansau cyfalaf) a bod modd ei ariannu'n fwy hyblyg; a gobeithir y bydd hyn yn eu hannog i wario mwy ar welliannau, neu o leiaf, i gael mwy o fudd o'r arian sy'n cael ei wario ganddynt.

**Adroddiadau Arbed Ynni**

29. Roedd yr adroddiadau arbed ynni cyntaf a baratowyd gan awdurdodau lleol – eu strategaethau mewn gwirionedd - i fod i gael eu cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd cyn 30 Tachwedd 1997

30. Ar y cyfan, roedd yr adroddiadau arbed ynni yn galonogol iawn o ran y posibilrwydd o gwrdd â gofynion yr HECA

. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi clustnodi amrywiaeth eang o fesurau arbed ynni, ac roeddynt wedi cadarnhau ei bod yn bosibl cwrdd â'r ffigur dangosol o 30% o welliant cyn pen 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997 ymlaen.

**Yr Adroddiadau Cynnydd Cyntaf (1 Ebrill 1997 - 30 Tachwedd 1998)**

31. Cafodd yr adroddiadau cynnydd cyntaf a baratowyd gan awdurdodau lleol eu cynnwys fel rhan o'r Strategaeth Dai a Chynlluniau Gweithredol (HSOP) ar gyfer 1999/2000. Roedd angen cyflwyno'r rhain i'r Swyddfa Gymreig (bryd hynny) erbyn 1 Ebrill 1999.

32. Ar y cyfan, siomedig oedd ansawdd a defnyddioldeb y rhan fwyaf o'r adroddiadau cynnydd. Dim ond 6 awdurdod lleol a nododd y canran o welliant a welwyd ym maes effeithiolrwydd ynni tai ers 1 Ebrill 1997. I bob golwg bach iawn o sylw a wnaed o'r canllawiau a gyhoeddwyd yng Nghylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig. I fod yn deg â'r awdurdodau lleol, mae'n bosibl bod y nodiadau cryno am yr HECA yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gymreig ar y Strategaethau Tai a Chynlluniau Gweithredol (1999-2000) wedi camarwain rhai ohonynt i gredu bod angen i'w hadroddiadau hwythau fod yn gryno. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn esgus dros y diffyg

gwybodaeth ystadegol yn y rhan fwyaf o’r adroddiadau cynnydd.

33. Am fod y wybodaeth yn yr adroddiadau cynnydd cyntaf mor brin, nid oedd modd cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'r Cynulliad. O ganlyniad, cyhoeddwyd mwy o wybodaeth i'r awdurdodau lleol fis Mai 2000, sef 'Adroddiad HECA - Rhestr o'r Wybodaeth Angenrheidiol.'

**Yr Ail Adroddiad Cynnydd (1 Ebrill 1997 tan 31 Mawrth 2000)**

34. Yn sgil yr hyn a ddysgwyd o'r adroddiadau cynnydd cyntaf ac er mwyn ceisio rhoi mwy o sylw i wybodaeth ar gyfer yr HECA, tynnwyd yr adroddiadau cynnydd o'r broses HSOP a gofynnwyd iddynt gael eu cyflwyno i'r Cynulliad ar wahân. Roedd angen cyflwyno'r ail adroddiadau cynnydd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 1997 tan 31 Mawrth 2000 (tair blynedd cyntaf y Ddeddf) erbyn 30 Medi 2000.

35. Siom oedd canfod mai dim ond un adroddiad cynnydd a ddaeth i law erbyn y dyddiad a nodwyd. Ond erbyn Rhagfyr 2000 roedd 16 o adroddiadau cynnydd wedi cael eu cyflwyno. Am y 6 arall, roedd 5 o'r awdurdodau lleol wedi rhoi esboniad am beidio â'u paratoi ond ni chafwyd unrhyw esboniad o gwbl gan y chweched. Serch hynny, roedd ansawdd gyffredinol yr ail gyfres o adroddiadau cynnydd wedi gwella'n sylweddol ers yr adroddiadau cyntaf.

36.

Roedd y gwelliant yng Nghymru o ran effeithiolrwydd ynni cartref yn ystod y 3 blynedd uchod yn 2.25 %, sef cyfartaledd o 0.75% y flwyddyn. Yr ystod o welliannau effeithiolrwydd ynni a gofnodwyd gan yr 16 awdurdod lleol am y 3 blynedd oedd:

| % Ystod – Gwelliant | Nifer yr Awdurdodau yn yr Ystod |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 0.01 - 0.99 | 2 |
| 1.00 - 1.99 | 7 |
| 2.00 - 2.99 | 3 |
| 3.00 - 3.99 | 2 |
| 4.00 - 4.99 | 1 |
| 5.00 ac uwch | 1 |
| Dim adroddiad | 6 |

37. I raddau, y rheswm am y ffigur isel o ran gwelliant oedd effeithiolrwydd y systemau monitro oedd gan yr awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod datblygu meddalwedd monitro newydd a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ym mis Awst 2001 yn help i wella effeithiolrwydd y cyfryw systemau monitro.

38. Er gwaethaf y pwynt blaenorol, yr oedd yn amlwg y byddai'n rhaid gwella'r gweithgarwch effeithiolrwydd ynni yn sylweddol yn yr holl sectorau tai os oedd y targed o 30% o welliant i gael ei gyrraedd.

**Y Trydydd Adroddiad Cynnydd (1 Ebrill 2000 - 31 Mawrth 2001)**

39. I ddechrau, gofynnwyd am y drydedd gyfres o adroddiadau cynnydd am y cyfnod 1 Ebrill 2000 tan 31 Mawrth 2001 (pedwaredd flwyddyn y Ddeddf) ar 22 Awst 2001 i'w cyflwyno erbyn 23 Tachwedd 2001. Serch hynny, oherwydd bod un o'r prif gwmnïau oedd yn gosod mesurau effeithiolrwydd ynni wedi cyflwyno gwybodaeth yn hwyrach nag arfer - am resymau na ellid bod wedi eu rhagweld - gohiriwyd y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau tan 18 Ionawr 2002.

40. O'r diwedd cafwyd 18 adroddiad cynnydd, ond roedd un ohonynt yn anaddas i'w gynnwys yn y dadansoddiad am fod ynddo wybodaeth aneglur a allai hefyd fod yn anghyson. Ni roddodd awdurdodau lleol y 4 adroddiad cynnydd oedd ar goll esboniad swyddogol am beidio â chyflwyno'u hadroddiadau.

41. Y gwelliant yng Nghymru o ran effeithiolrwydd ynni tai yn y flwyddyn uchod oedd 0.69%. Roedd hyn yn cymharu'n anffafriol â'r gwelliant cyfartalog blynyddol o 0.75% yn y 3 blynedd flaenorol. Yr ystod o welliannau effeithiolrwydd ynni yr adroddwyd arnynt gan yr 17 awdurdod lleol yn 2000-01 oedd:

| % Ystod – Gwelliant | Nifer yr Awdurdodau yn yr Ystod |
|---|---|
| 0.01 - 0.99 | 15 |
| 1.00 - 1.99 | 2 |
| Adroddiadau anghyflawn | 1 |
| Dim adroddiad | 4 |

**Y Pedwerydd Adroddiad Cynnydd (1 Ebrill 2001 - 31 Mawrth 2002)**

42. Gofynnwyd am y bedwaredd gyfres o adroddiadau cynnydd am y cyfnod 1 Ebrill 2001 tan 31 Mawrth 2002 (pumed flwyddyn y Ddeddf) ar 5 Gorffennaf 2002 i'w cyflwyno erbyn 4 Hydref 2002.

43. Hyd at ddiwedd Chwefror 2003 dim ond 9 adroddiad cynnydd a ddaeth i law, ac unwaith eto, roedd un adroddiad yn anaddas i'w gynnwys yn y dadansoddiad. O'r 13 awdurdod lleol arall sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad cynnydd y tro hwn, un yn unig sydd wedi dweud wrth y Cynulliad bod oedi yn y gwaith o baratoi'r adroddiad.

44. Roedd y gwelliant yng Nghymru o ran effeithiolrwydd ynni tai yn ystod y flwyddyn uchod yn 0.98%. Serch hynny, seiliwyd y ffigur hwn ar sail 8 adroddiad allan o 22 adroddiad posibl. O ganlyniad, ni ellir ystyried bod y ffigur hwn yn adlewyrchu'n gywir y gwelliannau cyffredinol a wnaed yng Nghymru yn 2001/02. Serch hynny, ar ôl dadansoddi'r drydedd gyfres o Adroddiadau Cynnydd (2000-01) gwelwyd bod yr un 8 awdurdod lleol wedi gweld gwelliant blynyddol o 0.66%, sy'n agos iawn i'r cyfartaledd cyffredinol o 0.69% ar gyfer Cymru gyfan.

45. Yr ystod o welliannau effeithiolrwydd ynni yr adroddwyd arnynt gan y 8 awdurdod lleol ar gyfer 2001-02 oedd:

| % Ystod – Gwelliant | Nifer yr Awdurdodau yn yr Ystod |
|---|---|
| 0.01 - 0.99 | 6 |
| 1.00 - 1.99 | 1 |
| 2.00 - 2.99 | 1 |
| Adroddiadau anghyflawn | 1 |

46. Mae'r ffigur blynyddol o 0.98% o welliant ar gyfer 2001/02 yn gam mawr ymlaen ar welliant cyfartalog blynyddol y 4 blynedd cyn hynny, sef tua 0.75%. Serch hynny, gan ein bod hanner ffordd drwy oes 10 mlynedd yr HECA, mae'r gwelliant cyffredinol o 3.92% mewn effeithiolrwydd ynni tai yn awgrymu na fyddwn yn llwyddo i gyrraedd y targed o 30% o welliant cyn pen 10 mlynedd, os aiff pethau ymlaen fel hyn. Bydd angen cynyddu'r gweithgarwch effeithiolrwydd ynni tai yn sylweddol yn yr holl sectorau tai yn y dyfodol agos er mwyn cwrdd â'r targed o 30%.

**Cymorth a Chefnogaeth yn y Dyfodol**

47. Ar 1 Ebrill 2002 daeth y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni i rym yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru 'gyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer lleihau tlodi tanwydd a gosod targedau ar gyfer ei gweithredu.'

48. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi ei strategaeth ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Mawrth 2003.

49. Bydd Strategaeth Tlodi Tanwydd Cymru yn ceisio dileu tlodi tanwydd ym mhob teulu anghenus hyd y gellir, erbyn 2010, a chyhyd ag y mae hynny'n ymarferol ni ddylai'r un teulu yng Nghymru fyw mewn tlodi tanwydd ar ôl 2018.

50. Trwy HEES mae'r Cynulliad yn pennu targed o helpu 38,000 o deuluoedd anghenus erbyn Mawrth 2004 a chyfanswm o 95,000 o deuluoedd erbyn Mawrth 2007.

51. Mae'r Ymrwymiad Effeithiolrwydd Ynni (EEC) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr nwy a thrydan trwyddedig annog neu helpu cwsmeriaid domestig i ddefnyddio mesurau effeithiolrwydd ynni. Daeth i rym ym Mhrydain Fawr ym mis Ebrill 2002. Mae'r cyflenwyr ynni yn adennill y costau hyn fel rhan o'u taliadau i gwsmeriaid. Roedd y Rhaglen Safonau Perfformiad flaenorol, a bennwyd gan y Rheolydd Ynni, yn unol â'i ddyletswydd i roi anogaeth i ddefnyddio ynni yn effeithiol, yn weithredol rhwng 1994 a 2002 a hynny ar gyfer cyflenwyr trydan yn unig. Ym mis Ebrill 2002, estynnwyd y rhaglen hon i gynnwys cyflenwyr nwy, gyda'r canlyniad bod gwariant wedi dyblu i oddeutu £7 miliwn y flwyddyn yng Nghymru yn 2002-2004 o'i gymharu â'r cyfnod cyntaf, sef 1994 - 2000.

52. Yn sgil Deddf Cyfleustodau 2000, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am raglenni fel hyn o'r Rheolydd i'r Llywodraeth. Ym mis Ebrill 2002, rhoddodd y Llywodraeth raglen 3 blynedd newydd ar waith, gan gynyddu maint y cynllun a'i ffocws ar ddefnyddwyr dan anfantais. Bydd y Cynllun EEC 3 blynedd yn golygu bod tua £11 miliwn yn cael ei wario ar fesurau effeithiolrwydd ynni yng nghartrefi defnyddwyr dan anfantais yng Nghymru, gan gyd-fynd â

Chynllun y Cynulliad ar Effeithiolrwydd Ynni yn y Cartref.

53. Amcangyfrifir bod tua 41,000 o gartrefi yng Nghymru sy'n gymwys ac felly'n medru cael budd o HEES. O'r rhain, mae 6,000 o eiddo heb gael eu cysylltu â'r prif rwydwaith nwy. At hynny, mae gan nifer o'r tai waliau cadarn ac maent felly'n anaddas ar gyfer gosod insiwleiddiad mewn waliau ceudod. Ar hyn o bryd, ychydig iawn y gall HEES ei wneud ar gyfer y tai 'anodd i'w gwresogi' hyn o ran lliniaru tlodi tanwydd gan mai bach iawn yw'r insiwleddiad y gellir ei gynnig a bod y system wresogi yn gallu bod yn gymharol ddrud.

54. Ar ôl cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, llwyddodd National Energy Services Ltd i glustnodi nifer o ddewisiadau amgenach a all helpu tai anodd i'w gwresogi. Erbyn hyn mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad, sydd wedi dod i'r casgliad y gallai fod manteision mewn cyflwyno systemau sy'n seiliedig ar olew, peledi pren a phwmpiau sy'n defnyddio gwres o'r ddaear. Pe byddai hyn yn llwyddiannus, mae'n fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r rhain fel dewisiadau amgenach na thrydan ar gyfer tai heb brif gyflenwad nwy o dan yr HEES.

55. Mae'r Cynulliad yn rhoi cymorth grant i awdurdodau lleol Cymru gynnal arolygon manwl o gyflwr eu stoc, ac mae hynny'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd ynni. Trwy gasglu'r data hwn, un o nodau'r Cynulliad yw y bydd awdurdodau lleol yn medru clustnodi pa fesurau cost effeithiol y gellir eu cymryd i wella effeithiolrwydd ynni y stoc gyfan a thrwy hynny ostwng biliau gwresogi tenantiaid a gollyngiadau niweidiol. Cafodd yr awdurdodau lleol gymorth grant i gynnal arolwg o'r stoc ac ym mis Medi 2002 roedd hwn yn gyfanswm o £865,000 (gan gynnwys grant peilot 1999).

56. Mae Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer y stoc dai yng Nghymru sy'n rhoi cyfle i bob teulu yng Nghymru fyw mewn cartrefi o ansawdd da sydd mewn cyflwr da; sy'n saff a diogel; sydd wedi cael eu gwresogi'n ddigonol, **sy'n defnyddio tanwydd yn effeithiol ac sydd wedi eu hinsiwleiddio'n dda**". Trwy gyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru gellir pennu safon gyffredin i anelu ati ar gyfer cyflwr ffisegol yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru.

57. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i landlordiaid tai cymdeithasol gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer eu holl dai erbyn 2012. Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol roi syniad o'r goblygiadau o gwrdd â'r safon erbyn mis Medi 2002 a datblygu, fel rhan o'r broses, gynlluniau rheoli asedau sydd i gael eu cyflwyno yn 2003.

**Goblygiadau Ariannol**

58. Bydd unrhyw wariant yn cael ei gynnwys o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Mae'n anodd mesur i sicrwydd beth fydd y goblygiadau i'r awdurdodau lleol. Serch

hynny, gan fod y Ddeddf a'i goblygiadau wedi cael ei chyflwyno ym mis Ebrill 1997, disgwylir y bydd unrhyw wariant gan awdurdodau lleol yn cael ei gynnwys o fewn eu cyllidebau presennol.